Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 6 Mai 2026

**Hysbysiad o gyfarfod:**

# Cyngor Sir

## Dydd Iau, 14eg Mai, 2026 at 2.00 pm,
## Council Chamber - Council Chamber

# AGENDA

Cynhelir gweddïau cyn y cyfarfod Cyngor am 13.50pm. Mae croeso i bob aelod ymuno â'r Cadeirydd ar gyfer hynny os ydynt yn dymuno gwneud hynny

.

| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 2. | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| 3. | **Ethol Cadeirydd y Cyngor ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2026/27** | |
| 4. | **Penodi Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2026/27** | |
| 5. | **I gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Mawrth 2026** | 1 - 10 |
| 6. | **Ethol Arweinydd y Cyngor Sir a derbyn hysbysiad o ddirprwyaethau'r Arweinydd (penodiadau i'r Cabinet)** | |
| 7. | **Protocol Datrysiadau Lleol** | 11 - 18 |
| 8. | **Adolygiad o Gynrychiolaeth Grwpiau Gwleidyddol** | To Follow |
| 9. | **Penodiadau i bwyllgorau** | 19 - 42 |
| 10. | **Adroddiad Cyrff Allanol** | 43 - 48 |
| 11. | **Dyddiad y cyfarfod nesaf - 25ain Mehefin 2026** | |

**Paul Matthews**

## Prif Weithredwr

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

Rachel Buckler
Laura Wright
Tony Kear
Catrin Maby
Jan Butler
Ian Chandler
Sara Burch
Alistair Neill
Su McConnel
Mary Ann Brocklesby
Fay Bromfield
Jane Lucas
Emma Bryn
Peter Strong
Meirion Howells
Paul Griffiths
Jackie Strong
Rachel Garrick
Maria Stevens
Steven Garratt
Angela Sandles
Ben Callard
John Crook
Tomos Davies
Dale Rooke
Sue Riley
Jayne McKenna
Jill Bond
Louise Brown
Lisa Dymock
Tony Easson
Christopher Edwards
Martyn Groucutt
Simon Howarth
Richard John
David Jones
Penny Jones
Malcolm Lane
Phil Murphy
Martin Newell
Paul Pavia
Maureen Powell
Frances Taylor
Tudor Thomas
Armand Watts
Ann Webb

# Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn yn barchus i chi roi rhybudd digonol i ni er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion.

**Siarad yn gyhoeddus yn y Cyngor Llawn**

Gall aelodau'r cyhoedd gofrestru i ofyn cwestiwn gan aelodau'r cabinet mewn cyfarfodydd llawn y cyngor. Nid oes cyfleuster i'r cyhoedd gofrestru i siarad fel rhan o'r ddadl am eitem ar yr agenda mewn cyfarfodydd cyngor llawn. Cyfanswm yr amser a neilltuir ar gyfer pob cwestiwn mewn cyfarfod o'r cyngor llawn yw 15 munud.

Ni chaniateir mwy nag un cwestiwn fesul holwr mewn cyfarfod llawn o'r cyngor a gofynnir cwestiynau yn y drefn y cânt eu cyflwyno.

Er mwyn cyflwyno cwestiwn mewn cyfarfod llawn o'r cyngor, rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig neu drwy e-bost i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd heb fod yn hwyrach na hanner nos, tri diwrnod gwaith cyn diwrnod y cyfarfod, gyda phob cwestiwn yn rhoi enw a chyfeiriad yr holwr.

Gellir gwrthod cwestiynau os;

- Nad yw'n ymwneud â mater y mae gan y cyngor gyfrifoldeb amdano neu sy'n effeithio ar y sir
- Yw'n ddifenwol, yn wamal neu'n sarhaus
- Yw'n gwestiwn sydd i raddau helaeth yr un peth ag a ofynnwyd mewn cyfarfod o'r cyngor llawn yn y 6 mis diwethaf
- Yw'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig

Pan na all person ofyn y cwestiwn i'r cyngor llawn yn bersonol, caiff y cadeirydd benderfynu darllen y cwestiwn yn uchel ar ei ran, cyfarwyddo y dylid darparu ymateb ysgrifenedig neu ddewis peidio ag ymdrin â'r cwestiwn yn ei absenoldeb. Bydd gan y rhai sy'n gofyn cwestiwn yn bersonol hawl i un cwestiwn atodol y mae'n rhaid iddo godi o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ateb. Gall y cadeirydd wrthod cwestiwn atodol ar y seiliau hyn.

Bydd unrhyw gwestiynau na ellir delio â nhw yn y cyfarfod oherwydd y terfyn amser ar gyfer cwestiynau cyhoeddus yn cael eu hateb drwy ymateb ysgrifenedig.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

### Ein Pwrpas

- i ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'u bywydau.

### Amcanion rydym yn gweithio tuag atynt

- Lle teg i fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau;
- Lle gwyrdd i fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur;
- Lle ffyniannus ac uchelgeisiol, lle mae canol trefi bywiog a lle gall busnesau dyfu a datblygu;
- Lle diogel i fyw lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo;
- Lle cysylltiedig lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi;
- Lle dysgu lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial.

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

**Caredigrwydd** – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.